Chwarae Teg

2020

# CYFLWR Y GENEDL

chwaraeteg.com

02920 462 745

@chwaraeteg #CTSotN20

## CYFLWYNIAD

Yn 2019, gwnaethom lansio ein hadroddiad cyntaf ar Gyflwr y Genedl, yn amlinellu sut mae Cymru'n perfformio yn erbyn ystod o ddangosyddion ystadegol sy'n ymwneud â menywod yn yr economi, sut mae menywod yn cael eu cynrychioli a menywod mewn perygl.

Mae'r adroddiad diwygiedig hwn yn cynnwys data wedi'i ddiweddaru i'n helpu ni i ystyried pa mor gyfartal yw Cymru. Mae'n dilyn cwblhau'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion i wneud Cymru'n arweinydd byd-eang ar gydraddoldeb rhywiol. Mae'r Adolygiad yn nodi rhaglen uchelgeisiol ar gyfer newid hirdymor o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu, yn cyflwyno ac yn gwerthuso polisïau a rhaglenni, fel eu bod yn gweithio i bawb. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad ydym yn parhau i ddatblygu polisi sydd, waeth pa mor anfwriadol, yn atgyfnerthu ac yn ailgreu anghydraddoldeb hirhoedlog drwy fethu ag ystyried anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol.

Ni fydd cyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru yn dasg syml na chyflym. Mae llawer o heriau ar ôl, gan gynnwys gorgynrychiolaeth menywod mewn gwaith rhan-amser â chyflog isel; tangynrychiolaeth menywod amrywiol mewn bywyd cyhoeddus a swyddi o bŵer; a'r perygl uwch o dlodi, trais a cham-drin y mae menywod yn eu hwynebu.

Ers adroddiad y llynedd ar Gyflwr y Genedl, rydym wedi gweld rhai newidiadau cadarnhaol – mae cyfradd cyflogaeth menywod wedi gwella, mae cyfran y menywod mewn swyddi arweiniol mewn cynghorau lleol wedi gwella ac mae nifer yr Aelodau Seneddol sy'n fenywod wedi cynyddu hefyd. Fodd bynnag, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu, ni fu unrhyw newid bron o ran cyfran y menywod sy'n gweithio'n rhan-amser ac mae cyfran fawr o fenywod yn dal i fethu cael gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Gall data ar gyfer Cymru fod yn gyfnewidiol; er enghraifft, nid yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi dilyn gostyngiad cyson fel y gwelwyd yn ffigurau'r DU. Felly, rhaid i ni barhau i ail-ymweld â'r ffigurau hyn ac ystyried a oes symudiad hirdymor tuag at gydraddoldeb.

**Menywod yn yr Economi**
creu Cymru lle mae menywod yn cyflawni a ffynnu ym mhob sector ac ar bob lefel o'r economi

**Cynrychiolaeth Menywod**
creu Cymru lle mae menywod yn weladwy ac yn ddylanwadol ym mhob sector o'r economi, cymdeithas a bywyd cyhoeddus

**Menywod mewn Perygl**
creu Cymru lle mae menywod yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir, eu statws cymdeithasol na'u lleoliad daearyddol

## CROESTORIADOLDEB

Ni fyddwn yn sicrhau cydraddoldeb nes bod pob menyw yn gallu cyrraedd ei llawn botensial, waeth beth fo'i rhyw, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd. Felly, mae'n hanfodol mynd ati mewn ffordd groestoriadol i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Wrth ddweud croestoriadoldeb, yr hyn rydym yn ei olygu yw cydnabod y ffordd y mae strwythurau pŵer yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gormes. Mae'n ymwneud â deall y ffordd y mae nodweddion fel y rhai uchod yn gallu rhyngweithio a chreu profiadau ac anfantais unigryw a lluosog yn aml mewn sefyllfaoedd penodol.


Ni ellir ac ni ddylir deall un math unigol o wahaniaethu ar wahân i'r llall. Nid yw'r anghydraddoldeb a wyneba menywod yn gyffredin i bawb ac mae'n hanfodol fod sgyrsiau am gydraddoldeb rhywiol yn ystyried sut y mae rhwystrau'n amrywio ar gyfer grwpiau gwahanol.

Gall data fod yn sialens wrth drafod croestoriadoldeb, yn enwedig yng Nghymru lle gall grwpiau sampl fod yn fychain. Mae rhwyfaint o ddata economaidd yn caniatáu i ni wneud astudiaeth o'r fath ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny. Ceir hefyd ymrwymiad gan ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru a'r ONS i wella argaeledd data wedi'i ddadgyfuno ac i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud hynny.

Mae'n debygol y bydd cael gafael ar ddata ar gyfer rhai grwpiau bob amser yn her. Mae'n bwysig felly bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir defnyddio data ansoddol a phrofiad byw, ochr yn ochr â data ystadegol, er mwyn deall yr heriau y mae gwahanol grwpiau o fenywod yn eu hwynebu a'r atebion polisi sydd eu hangen er mwyn eu goresgyn. Rydym wedi ceisio gwneud hyn yn ein hymchwil ni i brofiadau menywod Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig (BAME), menywod ar incwm isel a gwaith sydd ar y gweill gyda menywod anabl, ac rydym wedi ymrwymo i gynnwys lleisiau a phrofiadau grwpiau amrywiol o fenywod lle bynnag y bo'n bosibl yn ein gwaith.

### ANABLEDD A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD 2018-2019


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2017 - Mehefin 2018 a Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019






### STATWS CYFLOGAETH YN ÔL RHYW AC ETHNIGRWYDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2017-Mehefin 2018 a Gorffennaf 2018-Mehefin 2019



## MENYWOD YN YR ECONOMI

Mae'r anghydraddoldeb economaidd rhwng menywod a dynion yn deillio o'r rolau, y sectorau, y galwedigaethau a'r mathau o gontractau gwahanol y mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi ynddynt, sydd yn eu tro'n cael ei creu gan y pwysau cynyddol y mae menywod yn aml yn eu hwynebu oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

Ers y llynedd, cafwyd rhai newidiadau cadarnhaol. Mae cyfradd cyflogaeth menywod wedi parhau i wella ac mae diweithdra wedi gostwng. Fodd bynnag, ni fu llawer o newid mewn cyfraddau hunangyflogaeth ac mae menywod yn dal i fod yn llawer mwy tebygol o weithio'n rhan-amser na dynion, sy'n dod â chosb cyflog sylweddol.

Rydym wedi cynnwys data ar anweithgarwch economaidd, er gwaethaf pryderon am ei fethiant i gydnabod gwerth gwaith di-dâl, sy'n cael ei wneud gan fenywod yn bennaf. I wrthweithio'r her hon, rydym wedi cyflwyno'r data ochr yn ochr â rhesymau dros anweithgarwch economaidd, sy'n dangos yn glir fod gwaith di-dâl yn cael mwy o effaith ar ymgysylltiad menywod â'r economi o'i gymharu â dynion.

Mae'n destun pryder bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu hefyd. Gall data ar gyfer Cymru fod yn gyfnewidiol, felly byddwn yn monitro newidiadau'n ofalus dros y flwyddyn nesaf er mwyn penderfynu a oes tuedd gyffredinol ar i lawr neu beth allai fod yn achosi i'r bwlch ledu.

CYFLOG YR AWR I WEITHIWYR GWRYWAIDD
**£13.10**


CYFLOG CANOLRIFOL YR AWR HOLL WEITHWYR YNG NGHYMRU
**£12.15**

CYFLOG YR AWR I WEITHWYR BENYWAIDD
**£11.20**



### BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2019

Ffynhonell: ASHE, Dadansoddiad o'r Gweithle, 2019




## BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU, CYMHARIAETH RHWNG 2018 A 2019

| AWDURDODAU LLEOL | 2018 | 2019 | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Y DEYRNAS UNEDIG | 17.9% | 17.3% | -0.5% |
| CYMRU | 13.5% | 14.5% | +1.0% |
| TORFAEN | 15.6% | 25.6% | +10.1% |
| BLAENAU GWENT | 21.8% | 23.8% | +1.9% |
| RHONDDA CYNON TAF | 23.1% | 21.9% | -1.2% |
| BRO MORGANNWG | 23.4% | 21.9% | -1.5% |
| SIR Y FFLINT | 19.1% | 21.3% | +2.2% |
| CASTELL-NEDD PORT TALBOT | 18.1% | 20.9% | +2.8% |
| PEN-Y-BONT AR OGWR | 17.4% | 20.2% | +2.8% |
| CAERDYDD | 14.2% | 18.7% | +4.5% |
| YNYS MÔN | 25.5% | 17.8% | -7.8% |
| SIR BENFRO | 18.8% | 17.1% | -1.7% |
| CAERFFILI | 14.9% | 12.7% | -2.2% |
| WRECSAM | 14.9% | 12.6% | -2.3% |
| CASNEWYDD | 15.9% | 12.3% | -3.6% |
| POWYS | 13.5% | 12.3% | -1.3% |
| CEREDIGION | 11.2% | 10.9% | -0.3% |
| ABERTAWE | 6.8% | 10.8% | +4.0% |
| SIR DDINBYCH | 9.4% | 9.1% | -0.4% |
| SIR FYNWY | 17.5% | 7.3% | -10.2% |
| GWYNEDD | -0.2% | 5.8% | +6.0% |
| CONWY | -8.7% | 2.3% | +11.0% |
| SIR GAERFYRDDIN | 2.3% | -0.2% | -2.5% |
| MERTHYR TUDFUL | 5.5% | -10.7% | -16.2% |



## CYFRADD GWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYW AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019




**80.6% O DDYNION**

A

**72.5% O FENYWOD**

RHWNG

**16-64 OED**


YN

**WEITHREDOL YN ECONOMAIDD**

**Nid oes unrhyw newid sylweddol yn y cyfraddau gweithgaredd economaidd o'u cymharu â'r llynedd*

## CYFRADDAU ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYW AC OEDRAN


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019







## PAM MAE MENYWOD A DYNION YN ANWEITHGAR YN ECONOMAIDD?


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019






## CYFRADDAU DIWEITHDRA YN ÔL RHYW AC OEDRAN


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019




## HUNANGYFLOGAETH

### PA GYFRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N HUNANGYFLOGEDIG?


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2017-Mehefin 2018 a Gorffennaf 2018-Mehefin 2019




## PATRYMAU GWAITH


### FAINT O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N GWEITHIO'N RHAN-AMSER?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2017-Mehefin 2018 a Gorffennaf 2018-Mehefin 2019




## PATRYMAU GWAITH YN ÔL OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019




## PATRYMAU GWAITH YN ÔL ORIAU

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019





## CYNRYCHIOLAETH MENYWOD


Mae cynrychiolaeth menywod yn bwysig; pan fydd menywod yn yr ystafell, trafodir materion gwahanol ac mae ymchwil wedi dangos bod amrywiaeth ymhlith y rhai hynny sydd mewn swyddi uwch yn arwain at wneud gwell penderfyniadau.

Er bod y Cynulliad Cenedlaethol ar y cyfan wedi perfformio'n dda o ran rhyw, mae cynrychiolaeth menywod amrywiol yn parhau i fod yn her allweddol. Nid ydym eto wedi ethol menyw BAME fel AC, ac erys tangynrychiolaeth arwyddocaol o bobl BAME mewn penodiadau cyhoeddus.


Ers y llynedd, bu rhywfaint o welliant o ran cyfran y menywod mewn swyddi arweiniol mewn llywodraeth leol ac mae'r etholiad cyffredinol diweddar wedi dychwelyd cyfran uwch o ASau benywaidd o Gymru, o 28% i 35%.




- ACau yn fenywod
- Gynghorwyr Lleol yn fenywod
- ASau Cymru yn fenywod




- Aelodau cabinet Llywodraeth Cymru yn fenywod




- Arweinwyr Cynghorau'n fenywod
- Prif Weithredwyr Cynghorau'n fenywod
- Aelodau cabinet cynghorau'n fenywod

## 64%

PENODIADAU CYHOEDDUS A WNAED YN 2018-2019 YN FENYWOD

## 56%

CADEIRYDDION A BENODWYD YN 2018-2019 YN FENYWOD

## 3%

PENODIADAU CYHOEDDUS A WNAED YN 2018-2019 YN BAME (DS NID YW HYN WEDI'I DDADGYFUNO AR SAIL RHYW)

### BUSNES A'R GWEITHLE

Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y gweithle, sy'n effeithio ar gyflog a chynnydd ac yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. O'i gymharu â'r llynedd, mae cynnydd arwyddocaol yn y gyfran o fenywod mewn Amaethyddiaeth, Trydan, Llety, Gweithgareddau Eiddo Tirol, ac yn y sector Gweithgareddau Aelwydydd.

Mae gostyngiad sylweddol yng nghyfran y menywod yn y sectorau Cyflenwi Dŵr, Cyfanwerthu a Manwerthu, Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithgareddau Proffesiynol/Gwyddonol, a'r Celfyddydau/Adloniant.


Ychydig o newid a ddengys y ffigurau ar gyfer menywod mewn rolau arweinyddol.

Yn 2020, rydym wedi edrych ar yr hanner cant o fusnesau sy'n tyfu gyflymaf, sydd â gwell cyfran o fenywod mewn rolau arweinyddiaeth na'r 100 busnes gorau a gafodd sylw yn ein hadroddiad yn 2019. Er na ellir cymharu hyn yn uniongyrchol, gallai awgrymu tuedd gadarnhaol ar gyfer y dyfodol.




### BETH YW'R CYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU YN SECTORAU CYMRU?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019



## YM MHA ALWEDIGAETHAU Y MAE DYNION A MENYWOD YN GWEITHIO?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019




MAE


**16%**

O'R **BUSNESAU** SY'N **TYFU GYFLYMAF** YNG NGHYMRU YN CAEL EU HARWAIN GAN FENYWOD

(Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar restr Twf Cyflym 50 2019[1])

## PWY SY'N GWNEUD ROLAU UWCH A PHROFFESIYNOL?

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Gorffennaf 2017-Mehefin 2018 a Gorffennaf 2018-Mehefin 2019






## MENYWOD MEWN PERYGL

Mae menywod yn parhau i wynebu mwy o berygl o dlodi, arwahanrwydd cymdeithasol a chaledi ariannol oherwydd gwahanol safleoedd dynion a menywod yn y gweithle ac mewn cymdeithas, ac oherwydd effeithiau diwygiadau lles.

Ni fu llawer o newid yn nifer yr achosion o aflonyddu, cam-drin a thrais yn erbyn menywod. Mae pryderon cynyddol am nifer a natur y cam-drin sy'n cael ei gyfeirio at fenywod ar gyfryngau cymdeithasol, a p'un ai mewn mannau cyhoeddus, yn y gweithle neu yn eu cartref eu hunain, mae menywod yn parhau i brofi trais gan ddynion.



Mae un o bob pump o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad rhywiol ers eu bod yn 16 oed.

Roedd dros 510,000 o fenywod (3.1% o holl fenywod 16-25 oed) wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad rhywiol y llynedd.[2]

## AFLONYDDU A DIOELWCH

Mae **66%** o ferched yn y DU wedi profi sylw rhywiol neu gyswllt rhywiol neu gorfforol mewn man cyhoeddus

Mae **38%** o ferched yn profi aflonyddu geiriol fel gweiddi anweddus, chwibianu a sylwadau rhywiol o leiaf unwaith y mis

Mae **35%** o ferched sy'n gwisgo gwisg ysgol wedi cael eu haflonyddu'n rhywiol yn gyhoeddus

Adroddodd **42%** o ferched BAME ifanc eu bod yn cael sylw rhywiol dieisiau o leiaf unwaith y mis

Roedd **49%** o fenywod ifanc LBGTTIQ+ wedi profi sylw rhywiol dieisiau o leiaf unwaith y mis

Dywedodd **1 o bob 8** merch mai eu profiad cyntaf o sylw rhywiol dieisiau neu gyswllt mewn man cyhoeddus oedd pan oeddent yn 12 mlwydd oed neu'n iau

Ffynhonnell: Adroddiad Plan UK, It's Not Ok[3]

## CANOLFANNAU RAPE CRISIS AR DRAWS RHWYDWAITH RAPE CRISIS ENGLAND AND WALES

*RHWNG EBRILL 2018 A MAWRTH 2019*

**186,243** o gysylltiadau llinell gymorth ar-lein a thros y ffôn

**91%** o'r defnyddwyr gwasanaeth yn fenywod

**17%** o'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau a nodwyd yn hunanddiffinio fel Du neu Leiafrif Ethnig


**27%** o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn hunanddiffinio fel person anabl

Ffynhonell: Rape Crisis England and Wales, 2018-2019[4]

## CAM-DRIN DOMESTIG

### CYFRAN YR OEDOLION A DDIODDEFODD UNRHYW GAM-DRIN DOMESTIG, YN ÔL RHYW A GRŴP OEDRAN, 2019

Ffynhonell: ONS Domestic abuse prevalence and victim characteristics – Atodiadau Tablau 2019.[5]





## TLODI

Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru'n parhau'n ystyfnig o uchel. Mae'r perygl o dlodi i fenywod wedi'i gysylltu'n agos â'u safle yn y farchnad lafur ac o fewn eu haelwydydd. Fel ail enillwyr, neu brif ofalwyr, mae gan lawer o fenywod incwm annibynnol cyfyngedig, sy'n eu gadael yn arbennig o agored i lithro i dlodi os yw perthynas yn chwalu. Maent yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn rolau rhan-amser, â chyflog isel ac yn aml yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch a ydynt am weithio neu ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb am ofalu am eu plant.

Ar hyn o bryd, mae'r darlun o dlodi menywod yng Nghymru wedi'i guddio i gryn raddau gan fesurau tlodi diffygiol ar gyfer aelwydydd. Mae'n bwysig felly bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i brofiad byw menywod mewn tlodi, ochr yn ochr â data ystadegol, pan fydd polisïau a rhaglenni'n cael eu cynllunio. Mae ein hadroddiad, Yn Gaeth: Tlodi ymysg menywod yng Nghymru heddiw, yn gwneud hyn yn union, gan archwilio realiti bywyd i fenywod ar incwm isel.[6]

### PWY SYDD MEWN MWY O BERYGL O WYNEBU TLODI?

Source: Stats Cymru, HBAI, 2019: Pobl mewn tlodi cymharol yn ôl math o deulu 2014 -15 i 2016-17 a 2015-16 i 2017-18





MAE **90%** O RIENI SENGL YN **FENYWOD**

SOURCE: GINGERBREAD

MAE

# 24%

O AELWYDYDD YNG NGHYMRU YN BYW MEWN TLODI INCWM CYMHAROL





GWEITHWYR RHAN-AMSER YNG NGHYMRU

FFYNHONNELL: STATS CYMRU, HBAI, 2019[7]

## PATRYMAU GWEITHIO A THLODI

Canran yn byw mewn tlodi 2018 | Canran yn byw mewn tlodi 2019

Ffynhonnell: StatsCymru, HBAI, 2019: Pobl mewn tlodi cymharol yn ôl math o deulu 2014-15 i 2016-17 a 2015-16 i 2017-18




## DIWYGIADAU I NAWDD CYMDEITHASOL A LLES

Mae newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol yn mynd rhagddynt. Mae dadansoddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn amcangyfrif y bydd cartrefi yng Nghymru yn colli £480 y flwyddyn ar gyfartaledd o ddiwygiadau budd-daliadau, treth a lleiafswm cyflog a gyhoeddwyd ers 2010.[8]

Mae nifer fawr o newidiadau i nawdd cymdeithasol wedi effeithio ar fenywod yn bennaf, yn enwedig mewn cartrefi incwm isel a theuluoedd un rhiant.

Mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn mynd rhagddo'n arafach o lawer na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Er gwaethaf rhybuddion gan wahanol sefydliadau am gynllun gwael Credyd Cynhwysol a'r effaith negyddol debygol ar fenywod, ychydig iawn o newidiadau a wnaed. Wrth i'r broses barhau yng Nghymru, mae'n hanfodol bod yr effaith ar fenywod yn cael ei monitro'n ofalus.

AMCANGYFRIFIR BOD **80%** O ARBEDION SY'N DEILLIO O NEWIDIADAU LLES A THRETH WEDI DOD O BOCEDI MENYWOD

# 55%

O'R RHAI SY'N HAWLIO **CREDYD CYNHWYSOL** YNG NGHYMRU YN **FENYWOD**

# 38%

O'R **MENYWOD** SY'N HAWLIO **CREDYD CYNHWYSOL** YNG NGHYMRU **MEWN GWAITH** O'I GYMHARU Â 29% O'R DYNION

FFYNHONNELL: YSTADEGAU'R DWP

## CASGLIAD

Eleni, gwelwyd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer cydraddoldeb rhywiol, yn seiliedig ar degwch a chanlyniad cyfartal, ac nid ar gyfle'n unig. Drwy dderbyn argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar raglen hirdymor o newid a fydd yn gwreiddio rhyw a chydraddoldeb yn holl waith Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod polisïau a rhaglenni nid yn unig yn cael effaith deg, ond yn cyfrannu'n weithredol at wneud cydraddoldeb yn realiti.

Er mwyn cyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen er mwyn gwireddu cydraddoldeb rhywiol, rhaid i gyflogwyr weithredu ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ogystal â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth.

Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysicach fyth ein bod yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael i ni er mwyn gweld sut yr ydym yn perfformio fel cenedl mewn perthynas â dangosyddion allweddol. Mae adroddiad Cyflwr y Genedl eleni yn rhoi darlun cymysg; er bod rhai mesurau'n symud i'r cyfeiriad cywir, megis y gyfradd gyflogaeth ac arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol, mae eraill yn parhau i fod yn ystyfrig o ddinewid neu'n gwaethygu.

Ni fydd ystadegau'n unig byth yn dweud y stori gyfan. Mae'n rhaid ystyried y data a gyflwynir yn Cyflwr y Genedl law yn llaw ag ymchwil arall a phrofiad byw menywod amrywiol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu deall y rhwystrau a'r heriau cymhleth sy'n atal rhai menywod rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Does dim un ateb syml i anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Er bod problemau strwythurol sydd wedi gwreiddio'n ddwfn yn cyfrannu at anghydraddoldeb, ceir enghreifftiau hefyd o fethiant polisi. Drwy beidio ag ystyried gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn ystod y broses o ddatblygu, darparu a gwerthuso polisïau a rhaglenni, mae perygl i ni atgyfnerthu ac ail-greu'r anghydraddoldeb presennol. Felly, mae angen i ni fod yn fentrus a newid yn radical yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud e. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar sylfeini cadarn a manteisio ar y cyfleoedd sydd gennym i sbarduno newid a sicrhau Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu.



## ÔL-NODIADAU


1. Nodwyd yr arweinwyr busnes drwy wefan cwmnïau a Thŷ'r Cwmnïau

2. Home Office (2019) Taflen yn erbyn Menywod a Merched a Thaflen Ffeithiau Sefyllfa Gwrywhttps://homeofficemedia.blog.gov.uk/2019/03/07/violence-against-women-and-girls-and-male-position-factsheets/

3. Plan UK (2018) It's Not Ok https://plan-uk.org/file/plan-uk-street-harassment-reportpdf/download?token=CyKwYGSJ 2018/19.Merched rhwng 14-21 oed

4. Rape Crisis England and Wales, 2018 https://rapecrisis.org.uk/get-informed/about-sexual-violence/statistics-sexual-violence/

5. Tabl 6a: Prevalence of domestic abuse in the last year among adults aged 16 to 74, by personal characteristics and sex, year ending March 2019 CSEW. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseprevalenceandvictimcharacteristicsappendixtables

6. Chwarae Teg, Yn gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw, https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/12/crynodeb-gweithredol.-Yn-gaeth-Tlodi-ymhlith-menywod-yng-Nghymru-heddiw.pdf

7. Cyhoeddiad aelwydydd islaw incwm cyfartalog (HBAI) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty

8. CCHD, dyfynnwyd yn Chwarae Teg (2019) Yn Gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw

chwaraeteg.com

02920 462 745

@chwaraeteg #CTSotN20